# Cyngor Datblygu'r Economi

**Crynodeb**

**Darparu diweddariad ar gynllun cyflawni'r Tasglu Gweinidogol ar gyfer y Cymoedd – 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol'.**

## Cefndir

1. Sefydlwyd y tasglu gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl etholiad Cynlluniad Cenedlaethol Cymru a refferendwm yr UE. Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r cadeirydd ac mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth; Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip; ac Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes; hefyd yn aelodau'r tasglu.

   Aelodau eraill y tasglu yw:
   - Ann Beynon, Cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
   - Andrew Diplock, entrepreneur, cynghorydd busnes a Buddsoddwr Angel
   - Judith Evans, Pennaeth, Coleg y Cymoedd
   - Dr Chris Jones, Cadeirydd Interim Addysg a Gwella Iechyd Cymru
   - Martin Mansfield, Ysgrifennydd Cyffredinol, TUC Cymru
   - Y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd y Cyngor, Rhondda Cynon Taf
   - Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
   - Jocelyn Davies, Cyn Ddirprwy Weinidog Plaid Cymru dros Dai ac Adfywio
   - Fiona Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwaith Cymru a Thîm Partneriaeth a Chyflogwyr Cenedlaethol, Yr Adran Gwaith a Phensiynau
   - Gaynor Richards, Cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-Nedd a Port Talbot

2. Sefydlwyd y tasglu i adeiladu ar gryfderau ac asedau cymunedau'r Cymoedd i ddatblygu dull newydd o fuddsoddi yn nyfodol ardaloedd mwyaf economaidd ddifreintiedig Cymoedd y De, gan sicrhau bod gan bob unigolyn y cyfle i wireddu ei botensial. Diben y tasglu yw llywio a chanolbwyntio holl adnoddau Llywodraeth Cymru ar y materion sy'n wynebu'r Cymoedd.

3. Ar 20 Gorffennaf 2017, lansiwyd Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, sef y cynllun lefel uchel ar gyfer y Cymoedd. Amlinellodd y cynllun hwn y tair blaenoriaeth: swyddi o ansawdd da a'r sgiliau priodol i'w cyflawni; gwell gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau lleol. Datblygwyd y cynllun ar ôl derbyn adborth gan bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Cymoedd. Roedd yn nodi camau gweithredu a nodau amrywiol ym mhob un o'r tri maes blaenoriaeth, gan gynnwys:
   - cau'r bwlch cyflog rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru drwy gael 7,000 o bobl ychwanegol mewn gwaith erbyn 2021 a chreu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy;

- lansio tri phrosiect braenaru i edrych ar sut y gellir uno gwasanaethau a darpariaeth leol yn well yn Llanhiledd, Glynrhedynog ac yng Nglyn-nedd / Banwen;
- archwilio datblygiad Parc Tirweddau'r Cymoedd, sydd â'r potensial i helpu cymunedau lleol i ddefnyddio eu hadnoddau naturiol ac amgylcheddol at ddibenion twristiaeth, cynhyrchu ynni ac iechyd a lles.

4. Cyhoeddwyd cynllun cyflawni, sy'n mynd law yn llaw ag Ein Cymoedd, Ein Dyfodol, ar 7 Tachwedd 2017. Mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, nodwyd y camau a oedd angen eu cymryd i wireddu pob ymrwymiad. Mae mwy na 60 o gamau wedi'u hamlinellu yn y cynllun cyflawni hwn, ynghyd â'u canlyniadau disgwyliedig, sut y byddant yn cael eu cyflawni a'r rhanddeiliaid sy'n cyfrannu at eu cyflawni.

5. Nid cynllun ar gyfer y Cymoedd yw cynllun y Cymoedd, ond cynllun o'r Cymoedd. Cafodd ei lunio a'i gyhoeddi yn sgil trafodaethau'r tasglu gyda phobl ledled y Cymoedd i gyd. Mae'r tasglu wedi buddsoddi amser yn gwrando ar bobl o bob cwr o'r Cymoedd ac yn cydweithio â nhw a bydd yn parhau i weithio.

6. Mae'r tasglu yn cael ei gefnogi gan Fwrdd Tasglu'r Cymoedd, sy'n cynnwys uwch swyddogion o adrannau'r Llywodraeth a chynrychiolwyr allanol o feysydd iechyd, addysg, tai a'r bargeinion dinesig. Ei nod yw:
   - darparu cyngor ac argymhellion clir, realistig, seiliedig ar dystiolaeth i hysbysu a llywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De i helpu i gyflawni'r uchelgais a'r weledigaeth a nodir yn "Ein Cymunedau, Ein Dyfodol";
   - arwain ac ysgwyddo cyfrifoldeb llwyr am ddarpariaeth lwyddiannus y camau allweddol a'r gweithgareddau a nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol".

**Cydweithio ac ymgysylltu**

7. Gan weithio gyda phobl sy'n byw a gweithio yng Nghymoedd y De, mae'r Tasglu Gweinidogol yn allweddol wrth lywio gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth newid a phennu polisi'r llywodraeth mewn perthynas â'r Cymoedd. Nid diben y tasglu yw creu biwrocratiaeth newydd, na sefydlu mathau newydd o gyflawni, ond dod â phobl at ei gilydd a sbarduno newid, gan chwilio am atebion i gwestiynau sydd wedi ein hwynebu ers cenedlaethau.

8. I lwyddo, bydd y tasglu yn dod â holl adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid at ei gilydd i gefnogi'r Cymoedd. Bydd angen i ystod eang o sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig; y GIG, ysgolion a phrifysgolion), partneriaid trydydd sector a busnesau preifat weithio gyda'i gilydd i roi'r camau a amlinellir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" ar waith. Wrth i'r gwaith ar y cynllun cyflawni fynd rhagddo, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a busnesau ledled y Cymoedd. Mae'r rhain yn allweddol i lwyddiant y cynllun; nhw sydd wedi llywio'r cynllun ac mae eu cefnogaeth barhaus yn hollbwysig i wireddu'r uchelgeisiau ynddo.

**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni**

9. Mae'r cynllun yn nodi targed uchelgeisiol o helpu 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar sy'n byw yn y Cymoedd i waith teg drwy greu miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn y Cymoedd erbyn 2021.

10. Fel rhan o gyflawni'r targed heriol hwn, mae saith lleoliad ar gyfer canolfannau strategol ledled Cymoedd y De wedi'u nodi yn y cynllun cyflawni: Caerffili/Ystrad Mynach, Castell-nedd, Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Glynebwy, Pontypridd/Trefforest, Merthyr Tudful a Chwmbrân). Bydd y rhain yn ardaloedd lle bydd buddsoddiad cyhoeddus yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi yn y sector preifat a chreu swyddi newydd a chyfleoedd. Ers mis Tachwedd, mae cyfres o seminarau wedi'u cynnal yn ardaloedd yr hybiau hyn, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid i nodi prosiectau y gellir eu cyllido a'u cyflawni yng nghyfnod cyntaf datblygu pob un o safleoedd yr hybiau strategol erbyn 2021. Cynhaliwyd y diwethaf o'r rhain yng Nglynebwy ar 29 Ionawr 2018. Bydd cynigion y prosiect yn cael eu hystyried a bydd rhaglen fuddsoddi wedi'i chostio gychwynnol yn cael ei hystyried ar gyfer pob un o'r hybiau ym mis Ebrill 2018.

11. Mae cyfle drwy'r ymdrech a'r buddsoddi sy'n cael eu cynllunio ar gyfer mentrau newydd, fel Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (sy'n cynnwys Metro De Cymru) a Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sy'n cyd-fynd â'n dull gwaith rhanbarthol ehangach, i ddwyn ynghyd busnesau cyfredol, llywodraeth leol, trydydd sector, sefydliadau dinesig i ddatblygu cynllun cydlynus o hyrwyddo'r rhanbarth fel lle i fuddsoddi ynghyd â chydlynu buddsoddi presennol mewn ffordd ddoethach.

12. Maes pwysig arall ar gyfer gweithredu yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yw'r economi sylfaenol. Mae hon yn rhan bwysig iawn o'r economi ar gyfer y Cymoedd ac o greu a manteisio ar gyfleoedd newydd ar draws sectorau amrywiol, gan gynnwys gofal plant, lle mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynnig mwyaf hael y DU ar gyfer rhieni sy'n gweithio plant tair a phedair oed a bydd gofal cymdeithasol yn allweddol.

13. Bydd pecyn cymorth pwrpasol, integredig ar gael i'r busnesau hynny yn y Cymoedd gyda'r potensial mwyaf i dyfu. Mae'n hollbwysig sicrhau bod busnesau, cyflogwyr ac entrepreneuriaid yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i'w helpu i greu swyddi newydd a hybu eu heconomi leol. Fel rhan o'r strategaeth datblygu economaidd newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno contract economaidd newydd. Bydd disgwyl i unrhyw fusnes neu gyflogwr sy'n elwa mewn rhyw ffordd ar gymorth Llywodraeth Cymru ymrwymo i neu gefnogi'r agenda gwaith teg.

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus**

14. Trwy ein trafodaethau â chymunedau a rhanddeiliaid eraill, nodwyd bod rhai gwasanaethau cyhoeddus da yn y Cymoedd, ond nad ydynt mor gydgysylltiedig ag y gallent fod bob tro. Mae tri uwch swyddog llywodraeth wedi'u penodi fel

Swyddogion Braenaru’r Cymoedd mewn tair cymuned - Llanhiledd, Glyn-nedd/Banwen a Glynrhedynog. Maent yn pwyso a mesur sut y gellir integreiddio gwasanaethau a darpariaeth leol yn well a nodi unrhyw rwystrau sy’n atal cymunedau rhag gwireddu eu potensial llawn. Bydd y prosiectau braenaru hyn yn sbarduno newid yn Llywodraeth Cymru ynghyd â helpu i wella gwasanaethau lleol ym mhob un o’r tair cymuned.

15. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i archwilio rôl hybiau cymuned wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig. Mae gwaith mapio ar waith i bennu:
    - ymhle mae’r hybiau cymunedol yn awdurdodau lleol y Cymoedd;
    - pa wasanaethau y maent yn eu cynnig;
    - a oes unrhyw fylchau wedi’u nodi;
    - a oes cyfleoedd i wella.

    Mae ymarfer tebyg wedi mapio’r holl gyfraniadau gan adrannau Llywodraeth Cymru a allai gynorthwyo hybiau cymunedol.

16. Un o’r pwyntiau sy’n cael ei godi dro ar ôl tro mewn cyfarfodydd ledled y Cymoedd yw’r angen i gael mynediad i drafnidiaeth leol, fforddiadwy o ansawdd uchel. Yn ogystal â sicrhau bod cymunedau’r Cymoedd yn elwa ar Fetro De Cymru, mae’r tasglu yn cydnabod bod angen gweithio gyda darparwyr bws a rheilffyrdd er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu hadlewyrchu’n well a hefyd er mwyn cynyddu rôl trafnidiaeth gymunedol a chysylltiadau â theithio llesol.

**Fy nghymuned leol**

17. Rhan hanfodol o “Ein Cymoedd, Ein Dyfodol” yw archwilio datblygiad Parc Tirweddau’r Cymoedd, sy’n ymwneud â chryfhau’r Cymoedd fel lle y mae pobl yn falch o’i alw’n gartref; lle mae busnesau’n dewis buddsoddi a gweithredu; lle mae cymunedau’n cael eu grymuso ac yn dangos balchder yn eu hamgylchedd a lle mae’r amgylchedd a’i dreftadaeth ddiwydiannol ei hun yn rhan ganolog o ffyrdd pobl o fyw.

18. Mae gwaith ar droed i ddarparu tîm cymorth i arwain y gwaith o ddatblygu’r parc tirweddau, a fydd yn gweithio gyda chymunedau i’w helpu i wneud y gorau o’r amgylchedd naturiol a’u cefnogi i oresgyn rhwystrau fel mynediad at gyllid a thir cyhoeddus.

19. Mae swyddogion o’r tîm Polisi Cyfoeth Naturiol wedi cyfrannu at grŵp cyflawni ar draws sefydliadau sy’n gweithio ar ddisgrifiad manylach o sut bydd y parc tirweddau yn cael ei gynnal a’r canlyniadau arfaethedig. Bydd hyn yn cael ei brofi drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ym mhob un o ardaloedd awdurdodau lleol y Cymoedd. Mae’r grŵp hwn hefyd yn cynnwys swyddogion o Dasglu’r Cymoedd, Croeso Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd ag Andrew Osborne o Gyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen a David Llewellyn, Cyfarwyddwr, Blaengad CYF.

**Llywodraethu**

20. Deall sut mae cynnydd yn cael ei wneud yn ystod oes “Ein Cymoedd, Ein Dyfodol”. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro yn erbyn y dangosyddion llesiant cenedlaethol yng Nghymoedd y De.

21. Gan na fydd y dangosyddion cenedlaethol yn caniatáu mesur cynnydd yn y tymor byr bob tro, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi ar y cynnydd a wneir bob blwyddyn. Bydd hyn yn erbyn targedau allweddol yn y cynllun, fel y nod o gael 7,000 o bobl economaidd anweithgar a phobl ddi-waith i swyddi teg.

22. Bydd y cynllun cyflawni’n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn wrth i gamau gael eu datblygu ar y cyd â phobl sy’n byw yn y Cymoedd.

23. Bydd aelodau’r Tasglu yn goruchwylio a herio’r broses barhaus o gyflawni yn erbyn y cynllun. Mae gweithgorau wedi’u sefydlu i edrych ar feysydd penodol o’r cynllun ac mae pob un yn cael ei arwain/ei gadeirio gan aelod o’r tasglu.

24. Yn ogystal â’r tasglu’n herio’r cynnydd yn barhaus, mae bwrdd y rhaglen yn atebol am oruchwylio, monitro a herio’r cynnydd sy’n cael ei wneud yn erbyn pob un o’r camau yn y cynllun cyflawni.

25. Bydd cynllun ymgysylltu’n cael ei gyhoeddi yn y misoedd nesaf a fydd yn nodi sut bydd y tasglu yn ymgysylltu ac yn grymuso pobl mewn cymunedau ledled Cymoedd y De i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn diwallu anghenion a disgwyliadau pobl.

26. Cyfrifoldeb holl aelodau y Cabinet a Gweinidogion Cymru yw gwella ffyniant, trechu tlodi ac adfywio Cymoedd y De. Mae sicrhau dull cydgysylltiedig ledled y llywodraeth a chydweithio â phartneriaid cyflawni yn hollbwysig i lwyddiant.

**Argymhelliad**

Aelodau’r Cyngor i nodi a darparu unrhyw sylw ar Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.